**Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned**

Caiff yr Asesiad yma o'r Effaith ar y Gymuned ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 (011/2018). Mae i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan fod yr wybodaeth ym mhob dogfen yn gysylltiedig ac mae'r themâu ynddyn nhw'n drawsbynciol.

Mae Adran 2.1 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy’n gofyn am gyhoeddi cynigion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cau ysgol a gynhelir.

Dyma gynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd y cynnig yn cael ei gyflawni drwy drosglwyddo holl ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd y Rhigos i Ysgol Gynradd Hirwaun, a dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun yn ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos. Cynigir y bydd Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun erbyn mis Medi 2024 fan bellaf.

Cynhelir ymgynghoriad ar y cynnig rhwng 2 Hydref 2023 a 17 Tachwedd 2023. Mae Dogfen Ymgynghori fanwl wedi cael ei dosbarthu i'r holl randdeiliaid penodedig. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yma yn atodiad i'r brif ddogfen.

**Y Cynnig**

Dyma gynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun. Cynigir y bydd disgyblion sydd yn nalgylch Ysgol Gynradd y Rhigos yn lle hynny yn mynd i Ysgol Gynradd Hirwaun, lle mae adeilad newydd sbon sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif a chyfleusterau newydd sy’n addas ar gyfer y Cwricwlwm Newydd i Gymru. Byddai dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun yn ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos ac felly’n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed sydd angen addysg cyfrwng Saesneg yng nghymunedau Hirwaun a Rhigos.

**Effaith ar y Gymuned**

Dylid nodi ar yr adeg yma yn y broses ymgynghori bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn ystyried effaith gymunedol gyffredinol y cynigion yn gadarnhaol. Ailaseswyd hyn ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben a diweddarwyd yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned yn unol â hynny.

Bydd y cynnig yn arwain at ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn cael budd o’r ysgol gynradd newydd sbon, gwbl hygyrch yn Hirwaun, a fyddai’n darparu amgylchedd dysgu gwell gyda chyfleusterau o’r radd flaenaf. Mae cynnwys cyfleusterau cymunedol yn yr adeilad ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun, ynghyd â’r cyfleusterau chwaraeon sydd ar gael ar safle’r ysgol, yn sicrhau bod

cyfleoedd sylweddol well ar gyfer ymgysylltu â’r gymuned yn cael eu darparu o gymharu â’r trefniadau presennol yn y Rhigos. Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd cau’r ysgol yn cael effaith ar gymuned y Rhigos ac y bydd y golled yma'n cael ei theimlo gan lawer.

Ystyrir bod ysgolion yn adeiladau pwysig yn y gymuned beth bynnag yw lefel y rhyngweithio cymunedol a'r gweithgareddau a'r achlysuron a gynhelir yno. Felly mae'r effaith yma ar y gymuned leol yn cael ei chydnabod yn rhan o'r broses ymgynghori yma. I liniaru'r golled yma, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd y Cyngor yn mynd ati i archwilio gyda thrigolion ddefnyddiau cymunedol posibl i'w datblygu ar gyfer safle gwag yr ysgol. Byddai hyn wedyn yn destun adroddiad arall i'r Cabinet. Cynhelir ymarfer ymgynghori ar wahân i geisio barn y gymuned leol pe bai datblygu'r safle yma'n dod yn opsiwn ymarferol.

Mae Ysgol Gynradd y Rhigos tua 2.8 milltir o Ysgol Gynradd Hirwaun. Er yr amcangyfrifir y bydd y rhagamcanion o niferoedd disgyblion yn aros yn gymharol gyson dros y pum mlynedd nesaf ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun, rhagwelir ymhen pum mlynedd y bydd niferoedd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn parhau i ostwng, gan arwain at 43% o leoedd dros ben. Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gynradd y Rhigos dri dosbarth grŵp blwyddyn cymysg, fodd bynnag, pe bydden nhw'n trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun gallai'r disgyblion elwa o fod mewn dosbarthiadau mwy gyda phlant o'r un oedran. Mae'r Cyngor yn ystyried y byddai darparu addysg i’r disgyblion sy’n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg fwy, newydd, bwrpasol sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif yn Hirwaun, ymhlith manteision eraill, yn cynnig:

- Bydd mwy o hyblygrwydd a chyfle i ddisgyblion fod mewn amgylchedd modern addysgol estynedig a gwell ar gyfer dysgu a phrifio;
- Y posibilrwydd o arbedion ariannol yn nhermau gwasanaethau, mewn ysgol fwy a all gael eu hail-fuddsoddi er budd y disgyblion i gyd;
- Mwy o gyfleoedd proffesiynol a dilyniant gyrfa ar gyfer y staff addysgu a chymorth sydd ar gael mewn ysgol fwy;
- Bydd llai o alw ar staff gan y bydd cyfrifoldebau am ddatblygu’r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn rhan o’r Cwricwlwm i Gymru a rhwymedigaethau statudol ADY yn cael eu rhannu;
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol;
- Disgyblion, yn bennaf, yn cael eu dysgu yn rhan o'u grŵp blwyddyn. Mae pob dosbarth yn Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd yn grwpiau blwyddyn cymysg, gyda rhai dosbarthiadau yn darparu ar gyfer disgyblion dros grwpiau 3 blynedd; a,
- Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu a rhyngweithio â nifer fwy o'u cyfoedion yn eu grŵp blwyddyn eu hunain.

Mae'r ysgol newydd yn Hirwaun wedi'i dylunio i fod yn ysgol gwbl hygyrch, gan gynyddu cyfleoedd i'r gymuned gyfan gael mynediad i'r cyfleusterau newydd, cryfhau perthnasoedd ac integreiddio'r ysgol yn llawn i'r gymuned. Mae ardal benodol wedi cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol

ac ar ei ôl. Byddai'r cyfleusterau yma hefyd ar gael i gymuned y Rhigos pe bai'r cynnig yn llwyddiannus.

Cafodd yr ysgol newydd yn Hirwaun ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cynradd newydd gynnwys darpariaeth ar gyfer chwaraeon tîm, gan gynnwys man chwarae sy'n addas ar gyfer gemau tîm ar gyfer disgyblion 8 oed a hŷn ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) ar gyfer chwaraeon fel pêl-fasged a phêl-rwyd. Mae'n ofynnol hefyd i ysgolion newydd gynnwys ardaloedd chwarae meddal – fel arfer man glaswellt – lle gall disgyblion eistedd a chymdeithasu, ochr yn ochr â meysydd chwarae wyneb caled a man dan gysgod i ategu'r ardaloedd chwarae meddal o amgylch safle'r ysgol. Mae’r ysgol newydd hefyd yn cynnwys ardal ysgol goedwig ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ac yn darparu adnodd addysgu a dysgu gwerthfawr i gyflwyno’r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae angen gwaith atgyweirio sylweddol ar yr adeiladau presennol yn Ysgol Gynradd y Rhigos. Mae oedran ac adeiladwaith yr adeiladau yn atal yr ysgol rhag derbyn unrhyw waith gwella sylweddol a fyddai'n caniatáu iddi gael ei hystyried yn ddarpariaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Dydy'r safle presennol yn Ysgol Gynradd y Rhigos ddim yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Serch hynny, mae’r ysgol newydd yn Hirwaun yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Newidiadau i Ddalgylchoedd

Mae'r cynnig yn ceisio gwella'r adeiladau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddisgyblion yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos. O'r herwydd, cynigir ymestyn dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos.

Ar hyn o bryd, mae 57 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos, ac mae 7 (12%) ohonyn nhw'n byw y tu allan i'r dalgylch. O'r 7 disgybl hynny, mae 5 yn nalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun a 2 yn nalgylch Ysgol Gynradd Parc Aberdâr. Ar hyn o bryd mae 262 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun, gan gynnwys 28 (11%) o ddisgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch Hirwaun. *Ffigyrau’n seiliedig ar ddata gwirioneddol (25 Medi 2023).*

Rhagwelir y gallai ymestyn dalgylch amgylchedd dysgu Ysgolion yr 21ain Ganrif newydd i'r Rhigos hefyd annog rhieni / gwarcheidwaid sy'n dewis anfon eu plant i ysgolion y tu allan i Ysgol Gynradd bresennol y Rhigos ar hyn o bryd i anfon eu plant i'r ysgol ddalgylch newydd. Mae capasiti’r adeilad newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn golygu y bydd lle i bob disgybl o ardal y Rhigos a hoffai le yn yr ysgol newydd.

## Goblygiadau o ran Trafnidiaeth a Theithio

Mae’n ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i’w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw’n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o’r ysgol honno. Mae’r term ‘ysgol

addas’ yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo’n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd gorfodol a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd gorfodol.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Mae’r wybodaeth berthnasol am Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun wedi’i nodi isod:

- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan Fesur 2008.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae’r term ‘ysgol addas’ yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo’n briodol.

Mae Ysgol Gynradd Rhigos 2.8 milltir o Ysgol Gynradd Hirwaun ac nid oes llwybr cerdded diogel i ddisgyblion o un ysgol i'r llall. O'r herwydd, byddai pob disgybl sy'n dod o dan ddalgylch presennol Ysgol Gynradd Rhigos yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, ac felly'n negyddu'r angen am nifer o deithiau car i'r ysgol.

Mae'n anochel y bydd rhai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Rhigos ar hyn o bryd yn byw ymhellach i ffwrdd o'r safle newydd ac felly bydd eu taith i'r ysgol yn cymryd ychydig yn hirach, fodd bynnag, gall eraill, mewn gwirionedd, fyw'n agosach ato. Yn gyffredinol, er derbynnir bydd effaith ar drefniadau teithio disgyblion, ystyrir bod yr effaith yn fach iawn o ystyried y pellter cymharol fyr a deithiwyd.

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd y Cyngor yn cau adeilad ynni aneffeithlon gyda disgyblion yn symud i adeilad ynni-effeithlon sy'n bodoli eisoes, felly bydd gweithredu'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ôl troed carbon.

Mae man codi a gollwng pwrpasol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn Ysgol Gynradd Hirwaun, yn ogystal â maes parcio cymunedol sy'n darparu mannau parcio ychwanegol oddi ar y safle i rieni / gwarcheidwaid yn ystod cyfnodau prysur.

I’r disgyblion sy’n byw yn Rhigos sy’n cerdded, sgwteri neu’n beicio ar hyn o’r bryd, mae yna gydnabyddiaeth na fydd hyn yn bosibl pellach. Fe fydd y disgyblion a fydd yn teithio ar fws neu gar yn unol â’r trefniadau newydd yn dal

cael cyfleoedd i brofi'r awyr agored a chael digon o awyr iach gan ystyried y cyfleoedd helaeth sydd ar gael ar safle Ysgol Gynradd Hirwaun. Mae yna ystafell dysgu yn yr awyr agored, ardal gemau aml-ddefnydd, canopïau allanol, iard eang, cae chwaraeon, gerddi ayyb sy'n cyflwyno cyfansawdd o gyfleoedd i fagu a chefnogi iechyd a lles i'r disgyblion a'r staff.

Mae yna hefyd lwybr trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu cymunedau Rhigos a Hirwaun sy'n rhedeg bob awr. Mae'r safleoedd bysiau yn agos iawn i'r ddwy ysgol.

**<u>'Tu Allan i Oriau Ysgol' – Defnydd Presennol</u>**

Mae'r ddwy ysgol ar hyn o bryd yn cynnig clwb brecwast i ddisgyblion, ac felly byddai'r ddarpariaeth yma'n parhau ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.

Ysgolion unigol sy'n gyfrifol am ddarparu clwb brecwast ac er bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hystyried yn bwysig, dylid nodi nad yw gweithgareddau cyn ysgol yn ofyniad statudol. Felly, ni fydd darpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gael yn unig i gael mynediad at y ddarpariaeth hon, darperir cludiant ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol arferol, fel sy'n wir ar hyn o bryd ar gyfer pob ysgol ar draws Cyngor Rhondda Cynon Taf.

Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn ysgol gymunedol gyda darpariaeth gofal plant breifat ar safle'r ysgol. Mae Rachael's Playhouse, y darparwr gofal plant, yn cynnig Dechrau'n Deg, gofal plant preifat, cynnig gofal plant, a gwasanaeth cofleidiol i blant hyd at 5 oed. Mae wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer 30 o leoedd ac ar hyn o bryd mae ganddo ychydig o leoedd ar ôl.

Mae yna rhai clybiau ar ôl ysgol yn Ysgol Gynradd y Rhigos ac yn Ysgol Gynradd Hirwaun a gall y clybiau sy'n cael eu cynnal yn Ysgol Gynradd y Rhigos parhau yn Ysgol Gynradd Hirwaun. Mae'r cyfleusterau newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun wedi'i galluogi nhw i ddatblygu a chynyddu eu hoffer cwricwlwm ychwanegol ac maen nhw'n darparu cyfleodd eang trwy gydol y flwyddyn academaidd, megis rygbi, pêl-rwyd, clwb ffitrwydd, clwb garddio ac ati.

Yr ysgolion unigol sy'n gyfrifol am ddarparu clybiau ar ôl ysgol ac er yr ystyrir bod y darpariaethau hyn yn bwysig, dylid nodi nad yw gweithgareddau ôl-ysgol yn ofyniad statudol.

Fel sy'n digwydd ar draws Rhondda Cynon Taf, ni fydd darpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gael yn unig i gael mynediad at y gweithgareddau hyn, darperir cludiant ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol arferol yn unig.

Mae defnydd cymunedol a thrydydd parti o gyfleusterau'r ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun hefyd yn cael eu hannog yn frwd ac mae'r ysgol wedi'i dylunio i fod yn gwbl hygyrch. Mae ardal benodol wedi cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel,

a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl, a bydd pobl yng nghymuned y Rhigos yn cael eu hannog i wneud defnydd o’r cyfleusterau yma hefyd.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cymryd rhan mewn nifer o wahanol weithgareddau cymunedol, fel banciau bwyd wythnosol, dosbarthu bwyd ‘rhy dda i’w wastraffu’ yn wythnosol, a sesiynau ymgysylltu â theuluoedd, gan gynnwys sesiynau lles, rheoli arian a chymorth gyda chostau byw, sesiynau cymorth rhianta a gwybodaeth clwb cynilo.

Bydd yr holl gyfleusterau cymunedol, gweithgareddau a chyfleoedd sy'n cael eu cynnig yn Ysgol Gynradd Hirwaun ar hyn o bryd yn cael eu cynnig i ddisgyblion, rhieni a gwarcheidwaid, a chymuned ehangach y Rhigos er budd holl aelodau'r gymuned. Mae’r Cyngor yn ymwybodol bod grŵp rhieni a phlant bach yn cael ei gynnal yn Ysgol Gynradd Rhigos am ddiwrnod yr wythnos. Mae ystafell gymunedol bwrpasol ar gael yn Ysgol Gynradd Hirwaun, felly os yw arweinydd y grŵp eisiau sefydlu grŵp rhieni a phlant bach yn Hirwaun, yna gellir darparu lle hawdd i hyn.

**Effaith ar Iechyd a Lles**

Bydd y cyfleusterau newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn creu amgylchedd dysgu ac addysgu modern a lliwgar sy'n addas i'r 21ain Ganrif. Mae'r adeilad ysgol newydd yn addas i'r diben ar gyfer darparu meysydd addysgu a dysgu hyblyg er mwyn sicrhau bod y Cwricwlwm Newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae gan safle'r ysgol newydd fannau chwarae awyr agored newydd, ystafell ddosbarth awyr agored, ardal ysgol goedwig ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA), ac mae pob man yn gwbl hygyrch. Mae’r ffactorau yma o fudd i les pob disgybl a byddan nhw'n rhoi’r cyfle i wella lles disgyblion o Ysgol Gynradd y Rhigos, sydd heb fynediad at lawer o’r adnoddau yma ar hyn o bryd.

Bydd y manteision cadarnhaol yma i gymuned yr ysgol hefyd ar gael i gymuned Rhigos, gan y bydd y cyfleusterau ar gael i'w defnyddio gan y gymuned ysgol ehangach gan gynnwys dalgylch newydd y Rhigos. Bydd yr ysgol yn cael ei chefnogi i sefydlu cysylltiadau â’r grwpiau cymunedol lleol sydd bellach yn ehangach er mwyn sicrhau y bydd y gymuned ehangach hefyd yn elwa o’r buddsoddiad cadarnhaol yma.

Codwyd pryderon yn ystod y broses ymgynghori ynghylch y posibilrwydd y bydd plant yn colli eu hunaniaeth ddiwylliannol, eu 'Cynefin', os yw Ysgol Gynradd Rhigos yn cau. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd llawer o gyfleoedd i bob disgybl ddysgu am eu hardal leol a'u hunaniaeth ddiwylliannol wrth iddynt lywio'r Cwricwlwm i Gymru a datblygu eu dysgu yn seiliedig ar ymholiadau.

Dim ond 2 filltir o bentref Rhigos ydy Hirwaun, ac felly y disgwyl yw na fydd hyn yn cael ei golli i unrhyw ddisgyblion.

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer pob disgybl o Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Rhigos. Mae proses bontio ystyrlon a chadarnhaol yn rhan annatod o sicrhau bod disgyblion yn

ymgartrefu yn eu lleoliad ysgol newydd heb fawr o darfu ar eu lles a'u haddysg. Cefnogir hyn drwy ddarparu cefnogaeth fugeiliol ac academaidd effeithiol a chyfleoedd strwythuredig i ddisgyblion ddod yn gyfarwydd ag amgylchedd a staff newydd yr ysgol.

Bydd y Cyngor yn darparu cyngor a chymorth i'r ddwy ysgol dan sylw i sicrhau bod y broses bontio mor llyfn a di-dor â phosibl.

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r cynnig yma'n cyfrannu at y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**Cymunedau Diogel**

Credir bod effaith y cynigion ar ddiogelwch y gymuned yn gadarnhaol. Mae'r safle ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun wedi cael ei ddylunio i gydymffurfio â safonau 'Diogelu Drwy Ddylunio' a fydd yn sicrhau bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn cael eu diogelu'n llawn gyda theledu cylch cyfyng. Mae perimedr y safle yn ddiogel, yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn atal unigolion heb awdurdod rhag cael mynediad i'r safle y tu allan i oriau ysgol. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa bresennol yn Ysgol Gynradd y Rhigos, sydd â ffensys isel mewn rhai ardaloedd, gan arwain at linell ffin sy'n llai diogel.

Mae'r cyfleusterau cymunedol yn Ysgol Gynradd Hirwaun wedi'u dylunio fel bod modd cael mynediad atyn nhw heb beryglu diogelwch y staff na'r disgyblion. Mae gan y safle hefyd faes parcio pwrpasol ar gyfer staff, yn ogystal â maes parcio cymunedol oddi ar y safle sydd ar gael i rieni / gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned ei ddefnyddio.

Bydd y berthynas bresennol gyda'r heddlu lleol a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn parhau a bydd hefyd yn ymestyn i gynnwys y disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd y Rhigos.

**Diweddariadau i'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn dilyn yr ymgynghoriad**

| Sylwadau Ymgynghori | Dyddiad Ystyried | Diweddariadau i'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned |
|---|---|---|
| Yn dilyn yr ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 17 Tachwedd, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r ymatebion a dderbyniwyd. Derbyniwyd cyfanswm o 239 o ymatebion i'r ymgynghoriad drwy e-bost / yn ysgrifenedig, arolwg ar-lein a deiseb. | 28/11/2023. | Mae'r meysydd canlynol o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi cael eu diweddaru:<br><br>• Gweithgareddau allgyrsiol.<br>• Clwb brecwast.<br>• Grŵp Rhieni a Phlant Bach.<br>• Cynefin.<br>• Teithio a Thrafnidiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Effaith ar iechyd a lles. |